COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Arolwg o Drefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

# Adroddiad Argymhellion Terfynol

Ionawr 2026

© Hawlfraint CDFfC 2026

Cewch ailddefnyddio’r wybodaeth hon (ac eithrio’r logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i: http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â’r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn: ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

Mae’r ddogfen hon ar gael o’n gwefan hefyd yn: www.cdffc.llyw.cymru

# RHAGAIR

Mae'r Comisiwn yn falch o gyflwyno'r Adroddiad hwn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, sy'n cynnwys ei argymhellion ynglŷn â threfniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Cynhelir yr arolwg hwn o drefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013 ("Deddf 2013") a dogfen Polisi ac Ymarfer 2025 Rhaglen Arolygon Etholiadol y Comisiwn (Polisi ac Ymarfer 2025 y RhAE).

Wrth ddatblygu ein hargymhellion terfynol, rydym wedi ystyried cysylltiadau lleol a'r rhai sy'n dymuno cadw'r ffiniau presennol. Rydym wedi edrych yn ofalus ar bob cynrychiolaeth a gyflwynwyd i ni. Fodd bynnag, bu'n rhaid i ni gydbwyso'r materion a'r cynrychiolaethau hyn â'r holl ffactorau eraill y mae'n rhaid i ni eu hystyried, a'r cyfyngiadau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth. Yn benodol, y gofyniad am gydraddoldeb etholiadol, ochr yn ochr ag ystyriaethau daearyddol arbennig.

Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar i Aelodau a Swyddogion Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg am ei gynorthwyo â'i waith, i'r Cynghorau Cymuned a Thref am eu cyfraniadau gwerthfawr, ac i bawb a wnaeth gynrychiolaethau drwy gydol y broses.

**Karen Jones DL, MBA, MA(HRM), FCIPD**
**Cadeirydd**

## COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

## AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG

## ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| Pennod 1 | Cyflwyniad | 5 |
| Pennod 2 | Crynodeb o'r Argymhellion Terfynol | 6 |
| Pennod 3 | Yr Argymhellion Terfynol | 9 |
| Pennod 4 | Ymatebion i'r Adroddiad hwn | 23 |
| Pennod 5 | Cydnabyddiaethau | 24 |

ATODIAD 1 TREFNIADAU ETHOLIADOL PRESENNOL
ATODIAD 2 TREFNIADAU ETHOLIADOL ARGYMELLEDIG



Argraffiad 1af Ionawr 2026


**Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.**
**Mae'r ddogfen ar hon ar gael yn Saesneg.**


Darparwyd y cyfieithiad o'r adroddiad hwn gan Trosol



*Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru*
*4ydd Llawr – Adeilad y Llywodraeth*
*Parc Cathays*
*CAERDYDD*
*CF24 0BL*
*Rhif Ffôn: (029) 2046 4819*
*Rhif Ffacs: (029) 2046 4823*
*E-bost: ymholiadau@cdffc.llyw.cymru*
*www.cdffc.llyw.cymru*

## Pennod 1. Cyflwyniad

1. Ar 21 Mawrth 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhellion fel y'u nodwyd yn Adroddiad Argymhellion Terfynol y Comisiwn ar gyfer yr arolwg o drefniadau cymunedol Bro Morgannwg. Mae'r Comisiwn yn deall y bydd yr argymhellion hynny'n cael eu gweithredu trwy gyfrwng Gorchymyn Gweinidogion Cymru. Felly, mae'r Comisiwn yn cynnal ei arolwg etholiadol ar sail yr ardaloedd cymunedol ym Mro Morgannwg fel y byddant pan ddaw Gorchymyn Gweinidogion Cymru i rym. Disgwylir i'r Gorchymyn fod yn 'Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2026'. At ddibenion yr Adroddiad hwn, mae'r Comisiwn yn cyfeirio at y trefniadau disgwyliedig a fydd ar waith ar ôl gweithredu Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2026 wrth drafod y trefniadau 'presennol' ar gyfer y Sir. Mae'r adroddiad Argymhellion Terfynol ar gyfer yr Arolwg Cymunedol ar gael ar wefan y Comisiwn.

2. Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) wedi cynnal arolwg o drefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Cynhaliwyd yr arolwg yn unol â Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013 ("Deddf 2013").

3. Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn i gynnal arolwg o bob un o'r 22 Prif Gyngor yng Nghymru bob 12 mlynedd. Gellir gweld y rheolau a'r gweithdrefnau y mae'r Comisiwn yn eu dilyn yn nogfen Rhaglen Arolygon Etholiadol 2025: Polisi ac Ymarfer y Comisiwn, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn (Polisi ac Ymarfer 2025 y RhAE).

4. Ar ôl cwblhau'r arolwg o ardal y prif gyngor a chyflwyno argymhellion y Comisiwn ynglŷn â threfniadau etholiadol y prif awdurdod yn y dyfodol i Lywodraeth Cymru, mae'r Comisiwn wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf. Dylai unrhyw sylwadau pellach ynglŷn â'r materion yn yr adroddiad hwn gael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Rhoddir manylion ynglŷn â sut i ymateb i'r ymgynghoriad ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

5. Dylai'r holl ffiniau Gwlad, Etholaeth y Senedd, Etholaeth Seneddol San Steffan, Awdurdod Lleol, Ward Etholiadol, Cymuned, Wardiau Cymunedol neu Ddosbarth Pôl sydd wedi'u lleoli ar arfordir Cymru alinio â ffin Marc Cymedrig y Distyll fel y'i dangosir gan Linell Ffin gyfredol yr Arolwg Ordnans, neu ddata ffiniau a gynhyrchwyd gan y Gronfa Data Daearyddol Genedlaethol Arolwg Ordnans (OS CDD).

6. Bydd ffin Marc Cymedrig y Distyll a ddangosir o fewn Llinell Ffin yr Arolwg Ordnans neu ddata ffiniau a gynhyrchwyd gan yr NGD yn newid yn naturiol ac yn raddol dros amser a bydd yn cael ei diweddaru'n gyfnodol gan yr Arolwg Ordnans yn rhan o'i brosesau diwygio. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y data ffiniau a gyflenwir gan yr Arolwg Ordnans.

## Pennod 2. CRYNODEB O'R ARGYMHELLION TERFYNOL

1. Mae'r Comisiwn yn argymell newid i drefniant wardiau etholiadol a ddylai sicrhau bod wardiau etholiadol llywodraeth leol yn parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol a hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus ar draws ardal y prif gyngor. Bydd y newid argymelledig i drefniant wardiau etholiadol yn gwella cydraddoldeb etholiadol ar draws Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

2. Mae'r Comisiwn yn argymell cyngor â 59 o aelodau, sy'n fwy na'r 58 o aelodau a argymhellwyd yn Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg. Mae hyn yn arwain at gyfartaledd sirol argymelledig o 1,752 o etholwyr fesul aelod.

3. Mae'r Comisiwn yn argymell 26 o wardiau etholiadol.

4. Y dangynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn yr argymhellion yw **Gwenfô** (23% yn uwch na'r cyfartaledd sirol argymelledig). Ar hyn o bryd, mae'r dangynrychiolaeth fwyaf yn **Llandŵ** (42% yn uwch na'r cyfartaledd sirol).

5. Yr orgynrychiolaeth fwyaf (o ran amrywiant etholiadol) yn yr argymhellion yw **Llandŵ** (28% yn is na'r cyfartaledd sirol argymelledig). Ar hyn o bryd, mae'r orgynrychiolaeth fwyaf yn **Cosmeston** (61% yn is na'r cyfartaledd sirol).

6. Mae'r Comisiwn yn argymell 21 o wardiau aml-aelod yn y sir, sef: deuddeg o wardiau etholiadol â dau aelod; chwe ward etholiadol â thri aelod; a, thair ward etholiadol â phedwar aelod.

7. Mae'r Comisiwn wedi argymell cadw trefniadau etholiadol presennol 22 o wardiau etholiadol.

8. Nid yw'r Comisiwn yn cynnig cael unrhyw wardiau etholiadol yn y sir sy'n cyfuno rhan o gymuned â wardiau â chymuned gyfagos, gan arwain at 'gymunedau hollt'.


9. Cafodd y Comisiwn 16 o gynrychiolaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Mae'r holl gynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn unol â'n polisi cyhoeddi a golygu.


10. Cafodd y Comisiwn 87 o gynrychiolaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, chwe chyngor cymuned a thref, dau gynghorydd sir, dau gynghorydd cymuned, tri sefydliad cyhoeddus neu breifat a 73 aelod o'r cyhoedd. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau yn ofalus cyn llunio ei argymhellion. Mae'r holl gynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn unol â'n polisi cyhoeddi a golygu.

### Mapiau Crynhoi

11. Ceir mapiau thematig ar y tudalennau canlynol sy'n dangos y trefniadau presennol ac argymelledig a sut maen nhw'n amrywio o gyfartaleddau presennol ac argymelledig y sir, sef 1,782 a 1,752 o etholwyr fesul aelod, yn y drefn honno. Mae'r ardaloedd gwyrdd o fewn +/-10% o gyfartaledd y sir; mae'r ardaloedd melyn a chroeslinellau melyn rhwng +/-10% a +/-20% o gyfartaledd y sir; mae'r ardaloedd oren a chroeslinellau oren rhwng +/-20% a +/-50% o gyfartaledd y sir; ac, mae'r ardaloedd coch a chroeslinellau coch dros +/-50% o gyfartaledd y sir.

12. Fel y gellir gweld o'r mapiau hyn, mae'r trefniadau argymelledig yn gwella cydraddoldeb etholiadol ar draws y sir.


Bro Morgannwg - Amrywiant Presennol mewn Cynrychiolaeth Etholaethol yn ôl y Cyfartaledd Sirol Presennol
Wardiau Etholaethol Bro Morgannwg
Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol Presennol
Rhwng 20% a 50% yn uwch (3)
Rhwng 10% a 20% yn uwch (2)
Rhwng +/- 10% (15)
Rhwng 10% a 20% yn is (5)
Yn fwy na 50% yn is (1)
0
10
Cilomedrau
Graddfa 1:122,100
Llanbedr y fro
Sain Nicolas a Llancarfan
Y Rhws
Gwenfô
Llandochau
Dinas Powys
Sili
Plymouth
Dyfan
Illtud
Baruc
Sain Tathan
Llanilltud Fawr
Y Bont-faen
Llandŵ
Saint-y-brid
1. Cadog
2. Court
3. Castleland
4. Buttrills
5. Glannau'r Barri
6. Gibbonsdown
7. Cornerswell
8. Stanwell
9. Cosmeston
10. St Augustine's
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]


Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg - Amrywiant Argymelledig mewn
Cynrychiolaeth Etholiadol o'r Cyfartaledd Sirol Argymelledig
Wardiau Etholiadol Bro Morgannwg
Amrywiant o'r Cyfartaledd Sirol Argymelledig
Rhwng 20% a 50% yn uwch (2)
Rhwng 10% a 20% yn uwch (1)
Rhwng +/-10% (19)
Rhwng 10% a 20% yn is (3)
Rhwng 20% a 50% yn is (1)
0
10
Cilomedrau
Graddfa 1:126,300
Llandochau
Dinas Powys
Sili
Cadog
Gwenfô
Dyfan
Illtud
Llanbedr-y-fro
St Nicolas Llancarfan
Y Rhws
Sain Tathan
Y Bont-faen
Pen-llin
Llanilltud Fawr
Llandŵ
Saint-y-brid
1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
1. Baruc
2. Glannau'r Barri
3. Buttrills
4. Gibbonsdown
5. Court
6. Castleland
7. Cosmeston Plymouth
8. Cornerswell
9. Stanwell
10. St Augustine's
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

# Pennod 3. ARGYMHELLION TERFYNOL

1. Disgrifir argymhellion y Comisiwn yn fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob argymhelliad newydd, mae'r adroddiad yn amlinellu:
    - Enw(au) y wardiau etholiadol presennol sy'n ffurfio'r ward etholiadol argymelledig yn gyfan gwbl neu'n rhannol;
    - disgrifiad byr o'r trefniadau presennol o ran nifer yr etholwyr a'r aelodau etholedig;
    - dadleuon allweddol a wnaed yn ystod trafodaethau'r Comisiwn;
    - safbwyntiau'r Comisiwn;
    - cyfansoddiad y ward etholiadol argymelledig a'r enw argymelledig;
    - map o'r ward etholiadol argymelledig (gweler yr allwedd isod).

| | | |
|---|---|---|
| Ffin Ward Etholiadol Argymelledig | Ffiniau Cymunedol | Ffiniau Wardiau Cymunedol |

### Wardiau Etholiadol a Gedwir

2. Mae'r Comisiwn wedi ystyried trefniadau etholiadol y wardiau etholiadol presennol a'r gymhareb etholwyr llywodraeth leol i gynghorwyr. Argymhellir y dylid cadw'r trefniadau presennol ar gyfer y wardiau canlynol, gan fod pob un ond tair (Illtud, Llandŵ a Gwenfô) o fewn yr amrywiant +/- 20% derbyniol o'r Cyfartaledd Sirol argymelledig. Roedd Gwenfô yn rhan o ward Sain Nicolas a Llancarfan gynt, a chyflwynwyd y trefniant presennol yn yr arolwg etholiadol diwethaf. Gan y bu'r trefniant ar waith am un cylch etholiad yn unig, mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol rhoi ystyriaeth bellach i'w gadw. Dim ond un cylch y mae etholwyr wedi'i brofi o dan y ffiniau hyn a byddai eu newid eto – gan wybod y bydd yr amrywiant yn gwella yn y dyfodol – yn creu dryswch diangen. Mae nifer ragamcanol yr etholwyr ar gyfer 2030 o fewn yr amrywiant +/- 20% hefyd, felly mae'r Comisiwn yn fodlon cadw'r trefniadau presennol ar gyfer Illtud a Gwenfô. Mae'r enwau isod fel y maent yn ymddangos yng Ngorchymyn Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021, gyda'r ffurf Gymraeg yn gyntaf.

- Baruc | Baruc
- Buttrills | Buttrills
- Cadog | Cadoc
- Castleland | Castleland
- Cornerswell | Cornerswell
- Court | Court
- Dinas Powys | Dinas Powys
- Dyfan | Dyfan
- Gibbonsdown | Gibbonsdown
- Illtud | Illtyd
- Llandochau | Llandough
- Llanilltud Fawr | Llantwit Major
- Llanbedr-y-fro | Peterston-super-Ely
- Y Rhws | Rhoose
- Sain Tathan | St Athan
- Saint-y-brid | St Brides Major
- St Augustine's | St Augustine's
- Sain Nicolas Llancarfan | St Nicholas and Llancarfan
- Stanwell | Stanwell
- Sili | Sully
- Glannau'r Barri | Waterfront
- Gwenfô | Wenvoe

### Enwau Argymelledig ar gyfer Wardiau Etholiadol a Gedwir

3. Yn rhan o arolwg etholiadol, mae'r Comisiwn yn ystyried enwau wardiau etholiadol yn yr ardal sy'n destun arolwg. Yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn argymell newidiadau i enw ward etholiadol os yw'n ystyried y gellir gwella'r enw, p'un a yw'r Comisiwn hefyd yn argymell newidiadau i drefniadau etholiadol eraill sy'n effeithio ar y ward honno ai peidio. Yng ngoleuni

dyletswydd y Comisiwn i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, yn gyffredinol, bydd y Comisiwn yn ffafrio un enw Cymraeg ar gyfer wardiau etholiadol sydd hefyd yn dderbyniol yn y Saesneg.

4. Mae gan ward etholiadol bresennol **Baruc** yr enw Cymraeg presennol **Baruc**, a'r enw Saesneg presennol **Baruc**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Baruc** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

5. Mae gan ward etholiadol bresennol **Buttrills** yr enw Cymraeg presennol **Buttrills**, a'r enw Saesneg presennol **Buttrills**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Buttrills** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

6. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cadog** yr enw Cymraeg presennol **Cadog**, a'r enw Saesneg presennol **Cadoc**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Cadog** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

7. Mae gan ward etholiadol bresennol **Castleland** yr enw Cymraeg presennol **Castleland**, a'r enw Saesneg presennol **Castleland**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Castleland** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

8. Mae gan ward etholiadol bresennol **Cornerswell** yr enw Cymraeg presennol **Cornerswell**, a'r enw Saesneg presennol **Cornerswell**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Cornerswell** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

9. Mae gan ward etholiadol bresennol **Court** yr enw Cymraeg presennol **Court**, a'r enw Saesneg presennol **Court**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Court** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

10. Mae gan ward etholiadol bresennol **Dinas Powys** yr enw Cymraeg presennol **Dinas Powys**, a'r enw Saesneg presennol **Dinas Powys**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Dinas Powys** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

11. Mae gan ward etholiadol bresennol **Dyfan** yr enw Cymraeg presennol **Dyfan**, a'r enw Saesneg presennol **Dyfan**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Dyfan** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

12. Mae gan ward etholiadol bresennol **Gibbonsdown** yr enw Cymraeg presennol **Gibbonsdown**, a'r enw Saesneg presennol **Gibbonsdown**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Gibbonsdown** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

13. Mae gan ward etholiadol bresennol **Illtud** yr enw Cymraeg presennol **Illtud**, a'r enw Saesneg presennol **Illtyd**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Illtud** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

14. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llandochau** yr enw Cymraeg presennol **Llandochau**, a'r enw Saesneg presennol **Llandough**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Llandochau**, a'r enw Saesneg **Llandough** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

15. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llanilltud Fawr** yr enw Cymraeg presennol **Llanilltud Fawr**, a'r enw Saesneg presennol **Llantwit Major**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Llanilltud Fawr**, a'r enw Saesneg **Llantwit Major** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

16. Mae gan ward etholiadol bresennol **Llanbedr-y-fro** yr enw Cymraeg presennol **Llanbedr-y-fro**, a'r enw Saesneg presennol **Peterston-super-Ely**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Llanbedr-y-fro**, a'r enw Saesneg **Peterston-super-Ely** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

17. Mae gan ward etholiadol bresennol **Y Rhws** yr enw Cymraeg presennol **Y Rhws**, a'r enw Saesneg presennol **Rhoose**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Y Rhws** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

18. Mae gan ward etholiadol bresennol **Sain Tathan** yr enw Cymraeg presennol **Sain Tathan**, a'r enw Saesneg presennol **St Athan**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Sain Tathan**, a'r enw Saesneg **St Athan** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

19. Mae gan ward etholiadol bresennol **Saint-y-brid** yr enw Cymraeg presennol **Saint-y-brid** a'r enw Saesneg presennol **St Brides Major**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Saint-y-brid**, a'r enw Saesneg **St Brides Major**. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

20. Mae gan ward etholiadol bresennol **St Augustine's** yr enw Cymraeg presennol **St Augustine's**, a'r enw Saesneg presennol **St Augustine's**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **St Augustine's** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

21. Mae gan ward etholiadol bresennol **Stanwell** yr enw Cymraeg presennol **Stanwell**, a'r enw Saesneg presennol **Stanwell**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Stanwell** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

22. Mae gan ward etholiadol bresennol **Sain Nicolas a Llancarfan** yr enw Cymraeg presennol **Sain Nicolas a Llancarfan**, a'r enw Saesneg presennol **St Nicholas and Llancarfan**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol newydd **Sain Nicolas Llancarfan**. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig. Awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg hefyd fod y ddwy ffurf, sef St Nicholas a Sain Nicolas, yn dderbyniol yn unol â rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru. Mae'r Comisiwn yn argymell un enw yn seiliedig ar ei bolisi enwi i ddarparu enwau unigol, lle bo'n bosibl.

23. Mae gan ward etholiadol bresennol **Sili** yr enw Cymraeg presennol **Sili**, a'r enw Saesneg presennol **Sully**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Sili**, a'r enw Saesneg **Sully** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gynrychiolaeth a awgrymodd ddefnyddio 'Abersili' ar gyfer y ward etholiadol. Fodd bynnag, nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno bod 'Abersili' yn enw derbyniol i'r ward, gan ddatgan mai'r ffurfiau derbyniol yw 'Sili' a 'Sully'.

24. Mae gan ward etholiadol bresennol **Glannau'r Barri** yr enw Cymraeg presennol **Glannau'r Barri**, a'r enw Saesneg presennol **Waterfront**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Glannau'r Barri**, a'r enw Saesneg **Waterfront** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

25. Mae gan ward etholiadol bresennol **Gwenfô** yr enw Cymraeg presennol **Gwenfô**, a'r enw Saesneg presennol **Wenvoe**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Gwenfô**, a'r enw Saesneg **Wenvoe** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

### Wardiau Etholiadol Argymelledig

26. Mae'r Comisiwn wedi ystyried newidiadau i'r wardiau etholiadol sy'n weddill. Rhoddir manylion y trefniadau etholiadol presennol yn Atodiad 1. Rhoddir trefniadau argymelledig y Comisiwn yn Atodiad 2.

27. Yn yr adran ganlynol, wrth gyfeirio at wardiau etholiadol presennol, mae'r Adroddiad yn cyfeirio at y wardiau etholiadol fel y'u hargymhellir gan y newidiadau canlyniadol yn Argymhellion Terfynol Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg. Derbyniwyd yr argymhellion hyn yn llawn gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ar 21 Mawrth 2025. Mae Argymhellion Terfynol Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg ar gael ar wefan y Comisiwn.

## COSMESTON A PLYMOUTH

28. Mae ward etholiadol bresennol Cosmeston yn cynnwys ward Cosmeston yn Nhref Penarth. Mae gan y ward 693 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 61% yn is na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,782. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 693 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 63% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,867.

29. Mae ward etholiadol bresennol Plymouth yn cynnwys ward Plymouth yn Nhref Penarth. Mae gan y ward etholiadol 4,548 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 28% yn uwch na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,782. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 4,586 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 23% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,867.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cosmeston | 693 | 1 | 693 | -61% | 693 | 693 | -63% |
| Plymouth | 4,548 | 2 | 2,274 | 28% | 4,586 | 2,293 | 23% |
| | | **3** | | | | | |

### Cynigion Drafft

30. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Cosmeston a Plymouth i ffurfio ward etholiadol.

### Cynrychiolaethau

31. Cafodd y Comisiwn bum cynrychiolaeth ynglŷn â wardiau etholiadol Plymouth a Cosmeston yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft gan Gyngor Bro Morgannwg, Plaid Cymru Bro Morgannwg, Grŵp Ceidwadwyr Bro Morgannwg, Ceidwadwyr De Caerdydd a Phenarth ac aelod o'r cyhoedd. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Argymhellion ffiniau Wardiau Etholiadol

32. Mae'r Comisiwn yn argymell gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n cadw nifer gyffredinol y cynghorwyr sir ar gyfer yr ardal:

- Cyfuno wardiau etholiadol Cosmeston a Plymouth

33. Mae'r Comisiwn yn argymell cyfuno wardiau etholiadol presennol Cosmeston a Plymouth er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol argymelledig yn y ddwy ward bresennol. Mae'r argymhelliad hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol, yn cyfuno dwy ward etholiadol sy'n rhan o'r un ardal Cyngor Tref ac yn cadw nifer gyffredinol y cynghorwyr ar gyfer yr ardal, sef tri. Mae'r argymhelliad hwn hefyd yn cyd-fynd â'r gynrychiolaeth a gafwyd gan Gyngor Bro Morgannwg, ac nid yw'n newid y ffiniau ar gyfer Tref Penarth, sy'n cydymffurfio â chynrychiolaeth Cyngor Tref Penarth.


34. Bydd 5,241 o etholwyr yn ward etholiadol argymelledig Cosmeston Plymouth, a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sy'n hafal i'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 1,752. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 5,279 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 4% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol argymelledig, sef 1,835.

## Enwau Argymelledig

35. Mae’r Comisiwn yn argymell yr enw unigol newydd **Cosmeston Plymouth** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw unigol argymelledig ar gyfer y ward newydd.

36. Mae’r Comisiwn wedi ystyried y gynrychiolaeth gan Grŵp Ceidwadwyr De Caerdydd a Phenarth sy’n datgan y dylid enwi’r ward etholiadol yn ‘Plymouth Cosmeston’. Fodd bynnag, mae polisi enwi’r Comisiwn yn datgan y dylai enwau sy’n rhestrau o leoedd o fewn ward etholiadol gael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor. Felly, mae’r Comisiwn yn argymell yr enw ‘Cosmeston Plymouth’.

# Cosmeston Plymouth



## LLANDŴ

37. Mae ward etholiadol bresennol Llandŵ yn cynnwys Cymunedau Llandŵ, Llan-fair a Llan-faes, a Thregolwyn a Llanganna. Mae gan y ward etholiadol 2,531 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 42% yn uwch na'r cyfartaledd sirol presennol, sef 1,782. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,886 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 55% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,867.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llandŵ | 2,531 | 1 | 2,531 | 42% | 2,886 | 2,886 | 55% |
| | | **1** | | | | | |

### Cynigion Drafft

38. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn drosglwyddo Cymuned Tregolwyn a Llanganna i ward etholiadol Saint-y-brid a neilltuo trydydd Cynghorydd Sir i ward etholiadol Saint-y-brid.

### Cynrychiolaethau

39. Cafodd y Comisiwn 13 o gynrychiolaethau ynglŷn â wardiau etholiadol Llandŵ a Saint-y-brid yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft gan Gyngor Bro Morgannwg, un Cynghorydd Sir, pedwar Cyngor Cymuned, dau gynghorydd Cymuned, dau Sefydliad Gwleidyddol a thri aelod o'r cyhoedd. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Argymhellion ffiniau Wardiau Etholiadol

40. Mae'r Comisiwn yn argymell gwneud un newid i ward etholiadol bresennol Llandŵ, trwy neilltuo ail gynghorydd sir i'r ward etholiadol.

- Llandŵ i ffurfio ward etholiadol â dau aelod.


41. Mae'r Comisiwn yn argymell bod ward etholiadol Llandŵ yn cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd sir. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a gafwyd yn erbyn y Cynigion Drafft ac ystyriodd nifer o drefniadau amgen, gan gynnwys ffurfio ward etholiadol ag un aelod ar gyfer Cymuned Tregolwyn a Llanganna. Mae'r Comisiwn hefyd yn nodi'r gwrthwynebiad i'r Cynigion Drafft o ganlyniad i faint daearyddol mawr ward arfaethedig Llandŵ. Felly, mae'r Comisiwn yn argymell bod ward Llandŵ yn cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd sir, sy'n cynyddu nifer gyffredinol y cynghorwyr ar draws y sir o 58 i 59.

42. Bydd 2,531 o etholwyr yn ward etholiadol argymelledig Llandŵ, a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 28% yn is na'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 1,752. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,886 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 21% yn is na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol argymelledig, sef 1,835. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod y trefniant hwn ar gyfer Llandŵ yn arwain at lefel amrywiant sy'n uwch na'r trothwy goddefiant +/-20%. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn, yn seiliedig ar gynrychiolaethau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, mai darparu ail gynghorydd i Landŵ yw'r datrysiad gorau er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae'r Comisiwn hefyd yn nodi y disgwylir i'r lefel amrywiant gyrraedd -21% erbyn 2030, sydd ychydig y tu allan i'r goddefiant +/-20%.

### Enwau Argymelledig

43. Mae’r Comisiwn yn argymell cadw’r enw Saesneg presennol **Llandow** a’r enw Cymraeg presennol **Llandŵ** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enwau argymelledig.

# Llandŵ


0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:53,740
Ward Eglwys Fair y Mynydd
Ward Llanganna
Ward Tregolwyn
Cymuned Tregolwyn a Llanganna
Ward Llyswyrny
Ward Llandŵ
Cymuned Llandŵ, Llanfair a Llan-faes
Ward Llanmihangel y Bont-faen
Ward Saint Hilari
Ward Llan-fair
Ward Llan-faes
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

## Y BONT-FAEN

44. Mae ward etholiadol bresennol y Bont-faen yn cynnwys Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan, a Chymuned Pen-llin. Mae gan y ward etholiadol 5,260 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd -2% yn is na'r cyfartaledd sirol arfaethedig, sef 1,782. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 6,119 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 9% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol, sef 1,867.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Bont-faen | 5,260 | 3 | 1,753 | -2% | 6,119 | 2,040 | 9% |
| | | **3** | | | | | |

### Cynigion Drafft

45. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn greu dwy ward etholiadol newydd ar gyfer yr ardal gyda Thref y Bont-faen gyda Llanfleiddan yn ffurfio ward etholiadol â dau aelod, a Chymuned Pen-llin yn ffurfio ward etholiadol ag un aelod.

### Cynrychiolaethau

46. Cafodd y Comisiwn bedair cynrychiolaeth ynglŷn â ward etholiadol y Bont-faen yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft gan Gyngor Bro Morgannwg, Plaid Cymru Bro Morgannwg, Grŵp Ceidwadwyr Bro Morgannwg, a Chyngor Cymuned Pen-llin. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Argymhellion ffiniau Wardiau Etholiadol

47. Mae'r Comisiwn yn argymell gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n cynnwys creu dwy ward etholiadol newydd wedi'u ffurfio o Dref y Bont-faen gyda Llanfleiddan, a Chymuned Pen-llin. Mae'r argymhelliad hwn yn cadw nifer bresennol y cynghorwyr ar gyfer yr ardal, sef tri:

- Creu ward etholiadol newydd Pen-llin ag un aelod.
- Creu ward etholiadol newydd y Bont-faen â dau aelod.

41. Mae'r Comisiwn yn argymell creu ward etholiadol newydd ag un aelod wedi'i ffurfio o Gymuned Pen-llin. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymell creu ward etholiadol newydd â dau aelod wedi'i ffurfio o Dref y Bont-faen gyda Llanfleiddan. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Cynigion Drafft ac mae'n argymell bod y cynigion yn cael eu mabwysiadu.


42. Bydd 3,734 o etholwyr yn ward etholiadol argymelledig y Bont-faen, a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 7% yn uwch na'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 1,752. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 4,074 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 11% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol argymelledig, sef 1,835.

43. Bydd 1,526 o etholwyr yn ward etholiadol argymelledig Pen-llin, a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 13% yn is na'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 1,752. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,045 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 11% yn uwch na'r cyfartaledd sirol rhagamcanol argymelledig, sef 1,835.


### Enwau Argymelledig

44. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Saesneg presennol **Cowbridge** a'r enw Cymraeg presennol **Y Bont-faen** ar gyfer y ward etholiadol.

45. O ganlyniad i'r argymhellion hyn, mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Pen-llin** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig ac yn cynghori mai Pen-llin yw'r unig ffurf safonol a argymhellir yn rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru.


Y Bont-faen
Ward Aberthin
Ward Canol y Bont-faen
Ward Gogledd y Bont-faen
Ward Llanfleiddan
Cowbridge
0
1
Cilomedrau
Graddfa 1:25,210
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

# Pen-llin


0
2
Cilomedrau
Graddfa 1:34,510
Ward
Ystradowen
Ward
Llansanwyr
Cymuned
Pen-llin
Ward
Pen-llin
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]

## Pennod 4. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

1. Ar ôl cwblhau'r arolwg o ardal y prif gyngor a chyflwyno ei argymhellion i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r trefniadau etholiadol ar gyfer y prif awdurdod yn y dyfodol, mae'r Comisiwn wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf.

2. Llywodraeth Cymru sydd bellach yn gyfrifol, os gwêl yn dda, am weithredu'r argymhellion hyn naill ai fel y'u cyflwynwyd neu gydag addasiadau.

3. Dylai unrhyw sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r materion yn yr adroddiad hwn gael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl a, sut bynnag, heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Cymru. Dylid cyfeirio cynrychiolaethau at:

   Yr Is-adran Etholiadau
   Llywodraeth Cymru
   Parc Cathays
   Caerdydd
   CF10 3NQ

   Neu drwy anfon neges e-bost at:

   Etholiadau.elections@gov.wales

4. I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg a'r broses arolygu, gweler tudalen we'r Comisiwn: www.cdffc.llyw.cymru

## Pennod 5. CYDNABYDDIAETHAU

1. Hoffai'r Comisiwn ddiolch i'r prif gyngor, yr holl gynghorau cymuned a thref a'r cyrff a'r unigolion eraill â buddiant a wnaeth gynrychiolaethau i ni yn ystod y broses o ddatblygu'r argymhellion terfynol hyn. Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn cymeradwyo'r adroddiad argymhellion hwn.



**KAREN JONES DL, MBA, MA(HRM), FCIPD (Cadeirydd)**



**MICHAEL IMPERATO (Dirprwy Gadeirydd)**



**DIANNE BEVAN (Aelod)**




**FRANK CUTHBERT (Aelod)**



**GINGER WIEGAND (Aelod)**



**BETHAN PRICE-WILLIAMS (Aelod)**



**FRANCES DUFFY (Aelod)**



**SHEREEN WILLIAMS MBE, OStJ, DL (Prif Weithredwr)**

**Ionawr 2026**

© Hawlfraint CDFfC 2026